**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

**National Assembly for Wales**
External Affairs and Additional Legislation Committee

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

23 Mai 2018

Annwyl Mark,

**Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru: Beth fydd yn digwydd yn ystod cyfnod pontio Brexit?**

Yn ei gyfarfod ar 21 Mai 2018, cytunodd y Pwyllgor i ddechrau ymchwiliad newydd: *Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru: Beth fydd yn digwydd yn ystod cyfnod pontio Brexit?*

Dyma gylch gorchwyl y Grŵp:

"The Committee aims to understand how European Union law will be given effect in Wales during the Brexit transition period (29 March 2019 to 31 December 2020), including the role of the Welsh Ministers and Assembly scrutiny."

Fel y gwyddoch, mae'r drafft diweddaraf o Gytundeb Ymadael Erthygl 50 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyfnod pontio yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ar 29 Mawrth 2019 tan ddiwedd 2020.

Fodd bynnag, bydd y mecanwaith lle mae deddf yr Undeb yn gymwys ar hyn o bryd i ac o fewn y Deyrnas Unedig yn cael ei ddiddymu gan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ar ddiwrnod gadael yr UE.

Mae hyn yn gofyn y cwestiwn: sut y bydd cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn cael grym yn ystod y cyfnod pontio?

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMADY@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMADY
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEAAL@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEAAL
0300 200 6565

Mae gennym ateb rhannol gan Lywodraeth y DU, sef:

- mae Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn darparu mecanweithiau ar gyfer parhau â chyfraith bresennol yr UE; a
- bydd Bil arfaethedig y Cytundeb Ymadael a'i Weithredu yn darparu mecanwaith ar gyfer rhoi grym i gyfraith newydd yr UE yn ystod y cyfnod pontio.

Mae ffocws yr ymchwiliad hwn ar ddechrau archwilio'r ail agwedd hon h.y. beth y gallai'r trefniadau pontio hynny fod a'r math o drefniadau y gallai Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad eu paratoi cyn 29 Mawrth 2019.

A fyddech cystal â darparu cyflwyniad ysgrifenedig i'r Pwyllgor sy'n amlinellu sefyllfa bresennol Llywodraeth Cymru ar weithrediad y cyfnod pontio, gan gyfeirio'n arbennig at y cwestiynau a ganlyn:


- Pa broses a ddilynir ar gyfer trawsosod, gweithredu a gorfodi cyfraith yr UE yn ystod y cyfnod pontio?
- Pa rôl ddylai Llywodraeth Cymru ei chael yn y broses hon?
- Pa gamau paratoadol y bydd angen i Lywodraeth Cymru eu cymryd cyn i'r cyfnod pontio ddechrau?
- A fydd strwythur rhynglywodraethol o fewn y DU wedi'i sefydlu i gefnogi'r broses hon (fel y Cyd-bwyllgor Gweinidogion Ewrop cyfredol)?
- Sut bydd y ddau Fil ymadael (Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Bil y Cytundeb Ymadael a'i Weithredu) yn rhyngweithio o ran y cyfnod pontio?
- Sut y cyflwynir barn Llywodraeth Cymru ar ddeddfau drafft yr UE mewn meysydd datganoledig i'r Undeb Ewropeaidd?
- A fydd Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli ar Gyd-bwyllgor yr UE-DU a sefydlwyd o dan y Cytundeb Ymadael?

Yn ogystal ag ateb y cwestiynau uchod, byddem yn croesawu unrhyw wybodaeth ychwanegol y gallech ei hystyried i fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried darparu'r cyflwyniad ysgrifenedig hwn erbyn dydd Mercher 20 Mehefin 2018.

Diolch am ystyried y cais hwn. Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,



David Rees AM, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.